

## ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

<b>Cynghorydd: Bob Wright</b>	<b>Grŵp: Llais Gwynedd</b>														
<b>Ward: Pwllheli - De</b>															
<b>Bwriad yr adroddiad blynyddol:</b> Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.															
<b>Rol a chyfrifoldebau:</b> Rwyf yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, ac yn aelod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, Pwyllgor Ymgynghorol Harcwr Pwllheli. Hefyd, wrth wneud yr holl benderfyniadau yn nifer o bwyllgorau'r Cyngor, rwyf o hyd yn ceisio rhoi fy hun yn esgidiau'r etholaeth a phleidleisio fel disgwyliaf i'r nifer helaeth o fy etholwyr bleidleisio. Mae hyn yn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed o hyd.															
<b>Gweithgareddau etholaethol:</b>  Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf hefyd wedi cael nifer fawr o gyfarfodydd gyda swyddogion y Cyngor i geisio datrys problemau a gyflwynwyd i mi gan etholaeth Ward De Pwllheli. Rwyf wedi helpu i ddatrys problemau eraill megis problemau mynediad a phroblem gyda'r palmant yn Ffordd Mela, materion twmpathau cyflymder yn Talcymerau, coed wedi syrthio yn Talcymerau a chael gwared â thywod ar y ffordd sy'n rhedeg ar hyd y promenâd. Rwyf hefyd wedi ceisio datrys materion baw ci ond mae hwn yn her gyson bydd gofyn am ymglymiad holl gynghorwyr yr ardal. Mae yna broblemau hefyd wedi bod gyda'r harbwr a charthu ac rwyf wedi cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor i geisio lleihau effaith carthu ar drigolion gerllaw. Rwyf wedi chwarae rhan weithgar yn natblygiad yr academi hwylio newydd, ac wedi mynychu nifer o gyfarfodydd i drafod cyllideb yr academi a gwaith adeiladu cyfredol.															
<b>Mentrau a gweithgareddau eraill:</b> -															
<b>Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:</b>															
<table border="1"><thead><tr><th>PWYLLGOR</th><th>PRESENNOL</th></tr></thead><tbody><tr><td>Y Cyngor</td><td>4</td></tr><tr><td>Pwyllgor Craffu Cymunedau</td><td>4</td></tr><tr><td>Pwyllgor Archwilio</td><td>4</td></tr><tr><td>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli</td><td>1</td></tr><tr><td>Cyfarfod Paratoi y Pwyllgor Craffu Cymunedau</td><td>2</td></tr><tr><td>Cyfarfodydd Fforwm Ardal Dwyfor</td><td>4</td></tr></tbody></table> Canran Presenoldeb: 73%		PWYLLGOR	PRESENNOL	Y Cyngor	4	Pwyllgor Craffu Cymunedau	4	Pwyllgor Archwilio	4	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli	1	Cyfarfod Paratoi y Pwyllgor Craffu Cymunedau	2	Cyfarfodydd Fforwm Ardal Dwyfor	4
PWYLLGOR	PRESENNOL														
Y Cyngor	4														
Pwyllgor Craffu Cymunedau	4														
Pwyllgor Archwilio	4														
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli	1														
Cyfarfod Paratoi y Pwyllgor Craffu Cymunedau	2														
Cyfarfodydd Fforwm Ardal Dwyfor	4														
<b>Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:</b>  Ar ambell achlysur nid oeddwn i'n gallu mynychu cyfarfodydd pwyllgor penodol oherwydd bod dau bwyllgor yr wyf yn aelod ohonynt yn cyfarfod ar yr un diwrnod. Er enghraifft, roedd Cyfarfod Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru yn gwrthdaro gyda chyfarfod Pwyllgor Ardal Dwyfor ym Mhwillheli. Nodwch, nad yw presenoldeb yn cael ei gofnodi yn rhai cyfarfodydd anffurfiol. Mae canran presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn yn uchel, am fy mod yn credu bod angen i mi gynrychioli pobl De Pwllheli mor aml ag sy'n bosibl.															
<b>Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:</b> Amrywiaeth o gyfarfodydd a ddarparwyd gan swyddogion y Cyngor yn trafod strategaeth arbedion y Cyngor. Nifer o weithdai'r Pwyllgor Archwilio yn gofyn i swyddogion y Cyngor roi cyfrif am berfformiad eu hadrannau mewn meysydd penodol.															
<b>Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:</b> Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Ysgol Cymerau (Llywodraethwr) Ysgol Glan y Môr (Llywodraethwr)	<b>Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:</b> -														
<b>Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:</b>															

<b>Corfforaethol</b>	<b>Dyddiad</b>

<b>Ychwanegol</b>	<b>Dyddiad</b>

Cyfanswm nifer o oriau: 0 awr